

CYPE(5)-20-20 - Papur i'w nodi 7

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Welsh Parliament

Children, Young People and Education Committee

Alun Jones, Prif Weithredwr Dros Dro, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad | Date: 22 Gorffennaf 2020

Pwnc | Subject: Covid-19: Unedau cleifion mewnol gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc


Annwyl Alun,

Diolch i chi am eich [llythyr dyddiedig 15 Gorffennaf 2020](#), sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniadau sydd bellach ar waith i ganiatáu i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ymweld â chyfleusterau cleifion mewnol a'u harchwilio, ac am gynlluniau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gyfer ymateb i unrhyw gamau i lacio neu dynhau'r cyfyngiadau symud yn y dyfodol.

Gwnaethom drafod eich ymateb yn ein cyfarfod ar 20 Gorffennaf. Rydym yn croesawu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych, ac rydym yn dymuno cael diweddariadau rheolaidd gennych ynghylch y ffyrdd newydd o weithio yr ydych wrthi'n datblygu, gan gynnwys canlyniadau'r ymarfer gwerthuso a gynhaliwyd ar y dull dan sylw er mwyn sicrhau bod y ffyrdd newydd hyn yn briodol ac yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion.

Hoffwn dderbyn eich cynnig i gynnal cyfarfod er mwyn trafod y gwaith dilynol ar argymhellion yr adolygiad thematig ieuentid. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â'r tîm clericio i drefnu amser addas ar ôl i chi gyhoeddi eich canfyddiadau.

Yn gywir,



Lynne Neagle AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddPPIA@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddCYPE@senedd.wales

 0300 200 6565

